# TÎM CYMORTH CYFLOGADWYEDD

# EMPLOYABILITY SUPPORT TEAM

Cylchlythyr | Newsletter





YN Y RHIFYN HWN/IN THIS ISSUE

**AMDANON NI**
**ABOUT US**

**CWRDD Â'R TÎM**
**MEET THE TEAM**

**HANES EIN LLWYDDIANT**
**SUCCESS STORY**

**GWEITHDAI**
**WORKSHOPS**

**YSTADEGAU**
**STATISTICS**

**SUT I GYSYLLTU Â NI**
**HOW TO CONTACT US**

## AMDANOM NI | ABOUT US

Mae cymorth ar gael i oedolion sy'n byw yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ond mae ein prif ffocws ar gefnogi'r rhai sydd mwyaf wrth risg o fod dan anfantais.

Mae mentoriaid yn darparu cymorth un-i-un i gyfranogwyr wrth ysgrifennu CV, cynnal ffug gyfweliadau, uwchsgilio ac ariannu amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan gynnwys cymorth i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae'r tîm yn edrych ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn ar gyfer y 12 mis nesaf i helpu trigolion Ceredigion i ddod o hyd i waith a lleihau tlodi.

Gyda chymorth y prosiect, mae cyfranogwyr wedi dechrau cyflogaeth ac mae eraill wedi mynd i leoliadau gwirfoddoli, cyfleoedd gwaith â thâl neu hyfforddiant. Mae cyrsiau hyfforddi yn amrywio o gymwysterau cymorth cyntaf, manwerthu neu ofal iechyd, cardiau diogelwch adeiladu a hyd yn oed hyfforddiant gyrwyr HGV.

---

Support is available for adults living in Ceredigion who are not in employment, education, or training, however the primary focus should be to support those who are most at risk of disadvantage.

Mentors provide 1:1 support for participants with writing CV's, undertaking mock interviews, up-skilling and funding to reduce a wide variety of barriers to employment. The team are looking forward to building on this success for the next 12 months to help residents of Ceredigion find employment and to reduce poverty.

With the support of the project, participants have entered employment and others have entered volunteering placements, paid work opportunities or completed training. Training courses range from First Aid qualifications, hospitality, retail, healthcare, and construction safety cards.

# CWRDD Â'R TÎM | MEET THE TEAM



## Rhian Owen
Rheolwr Tîm
Team Manager



## Emma Daniel
Cydlynydd
Co-ordinator



## Tiffany Davies
Swyddog Cefnogi-Cyflogadwyedd, Ymgysylltu a Dilyniant
Support Officer-Employability, Engagement and Progression



## Catrin Davies
Swyddog Cefnogi-Cyswllt Cyflogwyr
Support Officer-Employer Liaison



## Catherine Crees
Swyddog Datblygu Cyflogaeth
Employment Development Officer



## Delor Evans
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Misha Homayoun-Fekri
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Jasmin Bottone
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor



## Rachel Tuck
Mentor Cymorth Cyflogadwyedd
Employability Support Mentor

# Hanes ein Llwyddiant
# Success Story



Mae Andrew yn ofalwr i'w wraig, ac roedd wrth ei fodd â'r syniad o fod yn yrrwr bws. Cyflawnodd yr uchelgais hwn ar ôl derbyn hyfforddiant hanfodol drwy gynllun Cymunedau am Waith+ (CFW+) Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn blynyddoedd o hunangyflogaeth yn y diwydiant amaethyddol, cysylltodd Andrew â CFW+ ar ôl ariannu rhan cyntaf y cwrs ei hun. Doedd Andrew ddim yn gallu ariannu gweddill y cwrs ei hun gan ei fod yn rhoi straen ariannol ar ei deulu. Ariannodd Cynllun Llywodraeth Cymru CFW+ weddill yr hyfforddiant yn ogystal â'i brawf gyrru bws.

Darparodd CFW+ cefnogaeth llawn i Andrew drwy gydol ei daith. Cafodd ei swydd gyntaf fel gyrrwr bws gyda Midway Motors, yng Nghrymych. I gymryd ei brawf gyrru, darparodd Midway Motors fws i Andrew a chynigwyd swydd iddo ar ôl pasio ei brawf. Cymerodd ran ym mhob sesiwn un i un gyda'i fentor, Rachel, a chwblhaodd ei holl dasgau.

Dywedodd Rachel, ei fentor: “Roedd Andrew yn benderfynol i ddod yn yrrwr bws. Cwblhaodd bob tasg pan ofynnwyd iddo wneud hynny. Mae ganddo gymeriad gwych ac agwedd gadarnhaol at fod yn yrrwr bws. Edrychwn ymlaen at allu dweud ‘Diolch, drive!’ wrthych chi yn y dyfodol, Andrew.”

Dywedodd llefarydd ar ran Cyngor Sir Ceredigion: “Mae Andrew wedi dangos sut y gall cynllun fel CFW+ fod o fudd i bobl o bob oed. Mae ei agwedd gadarnhaol a’i barodrwydd i ddysgu, ynghyd â chefnogaeth gan dîm CFW+ wedi arwain at Andrew yn sicrhau swydd gwych fel gyrrwr bws. Os byddech chi, neu rywun rydych chi’n ei adnabod, yn elwa o gynllun CFW+ Llywodraeth Cymru, cysylltwch â ni am sgwrs.”

I gael gwybod mwy am y gwasanaethau rydym yn eu darparu yng Ngheredigion, e-bostiwch TCC-EST@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01970 633422. Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf trwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support ar Facebook a @CymorthGwaithCeredWorkSupport ar Instagram.

Andrew is a carer for his wife, and loved the idea of being a bus driver. He met this ambition after essential training from the Welsh Government’s Communities for Work+ scheme (CFW+).

Following years of self-employment in the agricultural industry, Andrew approached CFW+ having self-funded the first parts of his course. However, the remaining costs put financial strain on Andrew’s family. Welsh Government’s CFW+ scheme funded the remaining training as well as his bus driving test.

CFW+ supported Andrew throughout his journey, where he took his first job as a bus driver with Midway Motors, Crymych, who provided Andrew with the bus for his test and employment upon passing his test. He took part in all one-to-one sessions with his mentor, Rachel, and completed all his tasks.

Rachel, his mentor, said: “Andrew showed passion and determination to become a bus driver. If he was tasked with something to complete, he did it immediately. He has a great character and positive attitude to be a bus driver. We look forward to being able to say ‘Thanks, drive!’ to you in the future, Andrew.”

A Ceredigion County Council spokesperson said: “Andrew has demonstrated how a scheme such as CFW+ can benefit people of all ages. His positive attitude and willingness to learn, together with support from the CFW+ team has resulted in Andrew securing a great role as a bus driver. If you, or someone you know, would benefit from Welsh Government’s CFW+ scheme, then please get in touch for a chat.”

To find out more about the services we provide in Ceredigion, email TCC-EST@ceredigion.gov.uk or call 01970 633422. You can also keep up to date with our activities by following our social media channels: Cymorth Gwaith Ceredigion Work Support on Facebook and @CymorthGwaithCeredWorkSupport on Instagram.

# Gweithdai | Workshops

**Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd wedi parhau i gynnal y gweithdai yn dilyn peilot llwyddiannus y gweithdy Cyflwyniad i letygarwch ym mis Chwefror 2024.**

**The Employability Support Team have continued to run the workshops following the successful pilot of the Introduction to hospitality workshop in February 2024.**



**Mawrth 2024**
Ar 19eg Mawrth 2024, buom yn cydweithio â Gwasanaeth Glanhau Cyngor Sir Ceredigion ar gyflwyno'r Cyflwyniad i Lanhau, roedd 6 o gyfranogwyr yn bresennol a llwyddodd y mwyafrif i gael cyflogaeth yn y sector yn dilyn y gweithdy!

**March 2024**
On 19th March 2024, we collaborated with Ceredigion County Council's Cleaning Service on the delivery of the Introduction to Cleaning, 6 participants attended and the majority were successful in gaining employment in the sector following the workshop!

**Mai 2024**
Buom yn cydweithio ag In the Welsh Wind a Dysgu Bro i gyflwyno'r gweithdy Cyflwyniad i Letygarwch yn Aberteifi, a fynychodd 5 cyfranogwr, a chynyddodd eu rhagolygon cyflogadwyedd i symud yn nes at gyflogaeth.



**May 2024**
We collaborated with In the Welsh Wind and Dysgu Bro to deliver the Introduction to Hospitality workshop in Cardigan, 5 participants attended, which saw their employability prospects enhanced to move closer into employment.

**Mehefin 2024**
Yn dilyn llwyddiant gweithdy Cyflwyniad i Lanhau'r Gogledd, fe wnaethom lansio'r gweithdy yn Aberteifi lle daeth 8 o gyfranogwyr a chawsant eu hysbrydoli i fynd i gyflogaeth yn y sector Glanhau!

**June 2024**
Following the success of the North Introduction to Cleaning workshop, we launched the workshop in Cardigan where 8 participants attended and were inspired to enter employment in the Cleaning sector!

**Gweithdai sydd ar ddod:**

**Gorffennaf 2024- Cyflwyniad i Arlwyo**
**Medi 2024- Fenywod i Mewn i Waith**



**Upcoming workshops:**

**July 2024- Introduction to Catering**
**September 2024- Women into Work**

# Ystadegau  Mawrth- Mehefin 2024
# Statistics- March-June 2024

| | |
|---|---|
| Atgyfeiriadau Newydd/ New Referrals: | 140 |
| Cyfranogwyr yn cael eu cefnogi/Overall participants supported: | 78 |
| Gwirfiddoli/Volunteering | 7 |
| Cyfleodd efo Thal/ Paid Work Opportunities | 4 |
| Canlyniadau swyddi/ Job outcomes | 31 |

Peirianneg a Gweithgynhyrchu

# Sectorau a gyrchwyd
# Sectors Entered

| | |
|---|---|
| Peirianneg a Gweithgynhyrchu/ Engineering and Manufacturing | 1 |
| Amgylchedd ac Amaethyddiaeth/ Environment and Agriculture | 2 |
| Manwerthu/ Retail | 3 |
| Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau a Cyfrifeg / Hospitality,  Events Management & Accountancy | 12 |
| Gorfodi'r gyfraith a Diogelwch/ Law enforcement and Security | 2 |
| Hyfforddiant ac Addysg Athrawon/ Teacher Training and Education | 2 |
| Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth/ Leisure, Sport & Tourism | 2 |
| Eiddo ac Adeiladu/ Property & Construction | 2 |
| Trafnidiaeth a Logisteg/ Transport & Logistics | 3 |
| Busnes, Ymgynghoriaeth a Chyllid/ Business, Banking and Finance | 2 |

# Sut i gysylltu â ni
# How to contact us

tcc-est@ceredigion.gov.uk

01970 633422

Cymorth Gwaith Ceredigion
Work Support

@cymorthgwaithceredworksupport

CYMORTH CYFLOGADWYEDD
EMPLOYABILITY SUPPORT